TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

17 Mehefin 2024

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Rwy’n ysgrifennu atoch i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar wasanaethau rheilffyrdd a pherfformiad TrC yn 2023-24. Ar ran TrC, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn craffu'n agos iawn ar ein perfformiad er mwyn sicrhau y gall TrC gynnig y gwasanaethau rheilffyrdd gorau i bobl Cymru a'r Gororau, a bod y prosesau sydd ar waith yn rhai gonest wrth wario arian trethdalwyr i drawsnewid y rheilffordd. Rwy'n cydnabod y bu 2023 yn gyfnod heriol i TrC yn weithredol o ganlyniad i brinder cerbydau trên a phroblemau o ran dibynadwyedd, tra bod pwysau costau wedi effeithio ar gyflawni'r CVL o ganlyniad i'r rhyfel yn yr Wcráin.

Rwy'n ddiolchgar i’n cwsmeriaid, cymdogion a rhanddeiliaid am eu hamynedd wrth i ni fynd i’r afael â’r cyfnod anodd hwn, ac er bod adroddiad y Pwyllgor yn gipolwg ar y foment honno mewn amser, rwy'n falch o gadarnhau bod perfformiad yn 2024 wedi gwella o ganlyniad i ddechrau rhoi ein trenau newydd ar waith, gyda dros 80% o drenau TrC yn cyrraedd ar amser neu o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd ers mis Ionawr.  Dengys yr ystadegau diweddaraf ar gyfer mis Mawrth bod hyn wedi cynyddu i 85%. Mae canslo ar draws y rhwydwaith ar gyfer 2024 hefyd wedi aros yn is na'r targed cyfartalog blynyddol o 5%. Mae lein Treherbert bellach wedi ailagor yn dilyn gwaith trawsnewid sylweddol (ynghyd â leiniau Aberdâr a Merthyr).  Mae trenau newydd wedi dechrau gwasanaethau ar leiniau i Ogledd Cymru, Maesteg, Glynebwy, y Gororau a De Cymru, gan gynnwys i rannau mwyaf de-orllewinol ein rhwydwaith sef Harbwr Abergwaun a Doc Penfro.

Edrychaf ymlaen at rannu gwelliannau parhaus gyda'r Pwyllgor a byddaf yn awr yn ymateb i bob un o'r 21 argymhelliad.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4ydd

A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4ydd

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 1: TrC i sicrhau bod ei gynlluniau busnes ac ariannol yn cael eu cyhoeddi cyn blwyddyn ariannol 2025 -26.**

**Ymateb: Derbyn**
Ers ymddangosiad TrC gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2023, rydym wedi cyhoeddi ein cynlluniau busnes ac ariannol 2024/25, a oedd ar gael i'r cyhoedd ar 26ain Mawrth 2024. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei lythyr cyllido i TrC ar 15fed Mawrth 2024, yn amlinellu ei chefnogaeth ariannol i TrC ar gyfer 2024/25 (dolen yma: Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru (TrC) 2024 -25. Yn ei dro, cyhoeddwyd Cynllun Busnes TrC mewn ymateb i'r llythyr hwnnw a gellir dod o hyd iddo yma. Mae'r wybodaeth ariannol ar dudalennau 11-12: Cynllun Busnes, 2024/25 (trc.cymru) . Byddwn yn cyhoeddi cynllun busnes 2025/26 cyn y flwyddyn ariannol yn ôl yr angen (ac fel y gwnaethom eleni); mae hyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2: Rhaid i TrC a Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllideb lawn TrC ar gael i'w harchwilio ar yr un pryd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn rhannu ein cyllideb amlinellol cyntaf gyda Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Gorffennaf. Yna byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru dros yr haf a hyd nes yr hydref, gan ddarparu mewnwelediad a her fel y cytunwyd. Mae cyhoeddi cyllideb lawn TrC yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3: Rhaid i Lywodraeth Cymru a TrC barhau i symleiddio'r broses o bennu'r gyllideb i leihau nifer y cytundebau dwyochrog sydd eu hangen.**

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru a TrC yn gweithio'n barhaus i symleiddio a gwella'r broses o bennu'r gyllideb a byddant yn rhoi ar waith y gwersi a ddysgwyd yn ystod proses y flwyddyn gyfredol.

**Argymhelliad 4: Rhaid i TrC nodi sut mae'n bwriadu rheoli diffygion posibl mewn refeniw blychau talu dros y tair blynedd nesaf.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Cafodd pandemig COVID-19 effaith heb ei debyg ar refeniw teithwyr rheilffyrdd a'r gwaith parhaus o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. O ganlyniad, mae nifer o flynyddoedd o dwf refeniw teithwyr cyflym wedi'i ohirio. Teimlwyd effaith COVID-19 ar refeniw teithwyr rheilffyrdd ledled y DU, ac mae gwasanaethau TrC wedi gwneud rhywfaint yn well na chwmnïau gweithredu trenau eraill yn Lloegr, tra ei fod ar yr un pryd yn sicrhau newid trawsnewidiol sylweddol ar CVL.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae TrC yn diweddaru ei ragolygon 5 mlynedd o refeniw teithwyr a mathau eraill o incwm yn flynyddol, gyda risgiau/cyfleoedd wedi'u nodi fel rhan o'r broses hon. Mae prosesau ar waith i liniaru unrhyw risgiau perthnasol i gyflawni targedau trwy'r strwythurau llywodraethu sydd ar waith. Yn ogystal, caiff refeniw teithwyr a mathau eraill o incwm eu monitro'n agos yn wythnosol ac yn achlysurol, tra yr eir ati yn barhaus i graffu ar ganlyniadau (gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau a bennwyd).

Gellir gweld ein ffocws allweddol ar werth am arian a sicrhau y gellir cyflawni gofynion Llywodraeth Cymru mewn ffordd effeithiol o ran cost yn ein proses pennu cyllideb ar gyfer 2024/25; tra bod TrC hefyd wedi ymrwymo i fanteisio ar gyfleoedd masnachol trwy gyfrwng ymgyrchoedd marchnata a phrydlesu prif fannau manwerthu (er enghraifft, Cyfnewidfa Fysiau newydd Caerdydd), yn ogystal â sbarduno gwerth o'n cadwyn gyflenwi.

**Argymhelliad 5: Dylai TrC gyhoeddi ei DdPA (KPI) corfforaethol ar unwaith a darparu diweddariadau rheolaidd.**

**Ymateb: Derbyn**
Ymrwymodd TrC i ryddhau adroddiadau chwarterol KPI ar gyfer 2024/25. Mae TrC hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi KPI ar gyfer Ch4 2023/24; yn naturiol, bydd hyn pan ddaw blwyddyn ariannol 2023/24 i ben. Gan ein bod bellach wedi dechrau cyfnod cyn yr etholiad yn dilyn cyhoeddi etholiad cyffredinol ar 4ydd Gorffennaf gan Lywodraeth y DU, ni allwn ryddhau'r wybodaeth hon ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau cyn yr etholiad. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu â Llywodraeth Cymru ac mae'n barod i'w rhyddhau cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu codi ar ôl yr etholiad. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor cyn gynted ag y caiff ei chyhoeddi.

**Argymhelliad 6: Dylai TrC ddiweddaru'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf ar y cynnydd o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach a gwella amrywiaeth yn y gweithlu.**

**Ymateb: Derbyn**
Bydd TrC yn ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch diweddariad ym mis Tachwedd 2024.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 7: Rhaid i TrC nodi cynllun clir i fynd i'r afael â'i berfformiad gwael mewn meysydd allweddol fel y nodir ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn. Yn benodol, dylai esbonio'r camau y bydd yn eu cymryd i wella'r modd y mae'n cyfathrebu â theithwyr.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae TrC wedi datblygu cynlluniau perfformiad ar y cyd â darparwyr seilwaith Network Rail a Seilwaith Amey Cymru; a lansiwyd strategaeth tair rhan a gafodd ei hadnewyddu ar gyfer gwella'r perfformiad rhwng TrC a'r darparwyr seilwaith hyn ym mis Ebrill 2024. Yn ogystal, mae Bwrdd Rheilffyrdd TrC wedi sefydlu is-bwyllgor sy'n canolbwyntio ar gynyddu perfformiad gweithredol.

Mae gwella dibynadwyedd ac argaeledd cerbydau trên yn flaenoriaeth allweddol i TrC fel gweithredwr trenau. Er bod prinder cerbydau trên wedi achosi problemau yn ystod hanner olaf 2023, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol gyda chyflwyno trenau newydd a thrawsnewid y rhwydwaith. Mae rhoi rhaglen recriwtio a hyfforddi gyrwyr ac arweinwyr mawr ar waith, ynghyd â threfniadau cyflogau a chynhyrchiant tair blynedd gyda'r grwpiau staff hyn, yn golygu hefyd mai prin yw perfformiad gwael oherwydd prinder staff trenau.

Rydym yn datblygu cynllun i wella tryloywder ac effeithiolrwydd ein cyfathrebiadau cyffredinol ynghylch perfformiad, gan gynnwys galluogi cwsmeriaid i ddeall sut mae eu gwasanaethau'n perfformio. Rydym yn gwella darpariaeth ein gwybodaeth i gwsmeriaid yn barhaus trwy allu digidol a thrwy weithio gyda'n timau rheng flaen a rhoi gwell gwybodaeth iddynt.

**Argymhelliad 8: Dylai TrC gyhoeddi data perfformiad wythnosol ar gyfer pob gwasanaeth ar y rhwydwaith rheilffyrdd mewn ffordd sy'n hygyrch i deithwyr. Dylid dosbarthu'r wybodaeth hon yn rheolaidd i aelodau perthnasol y Senedd etholaethol a rhanbarthol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**
Mae TrC yn datblygu cynllun i wella tryloywder ac effeithiolrwydd ein cyfathrebiadau perfformiad cyffredinol, gan gynnwys galluogi cwsmeriaid i ddeall sut mae eu gwasanaethau'n perfformio. Unwaith yr eir ati i gytuno ar y dull hwn, bydd data perfformiad ar gael ar-lein y gall pawb ei weld.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 9: Dylai TrC sicrhau, os daw gwasanaeth i ben yn gynnar, ei fod yn darparu cludiant amgen i bob teithiwr. Os na all TrC ddarparu dull arall o drafnidiaeth, fel bws yn lle trên, dylid rhoi'r arian angenrheidiol i deithwyr dalu am ddewis arall.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Gwna TrC bopeth yn ei allu i osgoi terfynu gwasanaethau cyn eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Os nad yw'n bosib osgoi hyn, mae rheolwyr TrC yn dilyn fframwaith canllawiau i adfer gwasanaethau rhag cael eu tarfu cyn gynted â phosibl ac atal sgil-effaith gan beri oedi i'r gwasanaethau nesaf. Mewn llawer o achosion, does dim llawer o amser aros nes y gwasanaeth nesaf, ac mae hyn yn lleihau oedi i deithwyr yr effeithir arnynt. Mae rheolwyr yn cyfathrebu â rheolwyr trenau ac yn monitro teledu cylch cyfyng yn yr orsaf ac ar y trên i benderfynu a fydd y penderfyniadau a wneir yn yr amgylchiadau hyn yn arwain at y trên yn gorlenwi, teithwyr yn cael eu gadael ar ôl neu deithwyr yn methu mynd ar y trên.

Weithiau, bydd trên yn cael cyfarwyddyd i alw mewn gorsafoedd nad ydynt ar yr amserlen i gynnig cydnerthedd yn yr amgylchiadau hyn a darparu gwasanaeth i deithwyr yr effeithir arnynt.

Mewn sefyllfaoedd eraill, darperir bysiau a choetsys yn lle trên a thacsis brys i gadw teithwyr i symud. Yn ddiweddar, cafodd ein rheolwyr sy'n gyfrifol am drefnu cludiant yn lle trên eu hadleoli i'n canolfan reoli yng Nghaerdydd. Golyga hyn ei bod hi'n haws cyfathrebu gyda rheolwyr sy'n ymateb i darfu ar wasanaethau ar y rheilffordd, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau mwy cydgysylltiedig pan fydd angen newid gwasanaeth a bod angen defnyddio trafnidiaeth yn lle trên. Mae gan TrC berthynas gref ag ystod o gwmnïau bysiau a thacsis hurio preifat lleol a rhanbarthol, gyda'r gallu i gludo teithwyr sydd â gofynion symudedd/hygyrchedd, ac mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer defnyddio trafnidiaeth yn lle trên ar fyr rybudd yn uchel. Mae'n bwysig nodi y gall fod yn anodd dod o hyd i'r cludiant hwn pan fydd cwmnïau hurio preifat wedi ymrwymo i gontractau cludo plant i'r ysgol yn ystod y tymor ysgol.

Caiff ceisiadau am iawndal am deithiau tacsi a wneir yn ystod cyfnodau o darfu eu trin yn deg ac yn gyson, gan ystyried a ddarparwyd unrhyw gludiant yn lle trên TrC ac a oedd gan deithwyr gysylltiadau teithio ymlaen sy'n sensitif i amser, ynghyd â chyfyngiadau llym ar oriau gyrwyr a diwrnodau gorffwys fel y nodir yn y gyfraith.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 10: Rhaid i TrC addasu ei brosesau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle mae gwasanaethau'n cael eu terfynu'n gynnar i ystyried yr effaith wahanol y gallai tywydd y gaeaf ei chael ar deithwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai TrC hefyd ystyried lleoliad yr orsaf lle mae'r gwasanaeth yn cael ei derfynu a pha mor agos ydyw at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth amgen.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Fel yr amlinellir yn argymhelliad 9, mae terfynu gwasanaethau cyn iddynt gyrraedd pen eu taith yn ddewis olaf i helpu i adfer y gwasanaeth yn ystod neu ar ôl tarfu ar y rhwydwaith. Mae'r fframwaith canllawiau a ddefnyddir gan reolwyr i wneud y penderfyniadau hyn yn cael ei adolygu'n gyson ac wrth gymhwyso'r fframwaith, pryd bynnag y mae opsiynau, bydd rheolwyr yn ystyried lleoliadau anghysbell, tywydd y gaeaf, amseroedd trenau diwethaf a'r amser tebygol y bydd yn ei gymryd i unrhyw gludiant yn lle trên gyrraedd yr orsaf honno.

Enghraifft ddiweddar o adolygu'r fframwaith canllawiau yw'r dewis ar gyfer defnyddio Llandrindod yn hytrach na Llanwrtyd os oes angen terfynu gwasanaeth ar Lein Calon Cymru. Gan taw dim ond yn rhan-amser mae gorsaf Llandrindod ar agor, mae cyfleusterau ar gael yng nghanol tref Llanwrtyd ac felly mae'n fwy addas.

**Argymhelliad 11: Dylai TrC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf am y cynnydd tuag at y targed o 95% o deithiau ar drenau newydd erbyn diwedd 2024.**

**Ymateb: Derbyn**
Bydd TrC yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r diweddariad hwn ym mis Tachwedd 2024.

**Argymhelliad 12: Dylai TrC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad ei adolygiad o wasanaethau ac amserlenni rheilffyrdd o fewn y chwe mis nesaf.**

**Ymateb: Derbyn**
Bydd TrC yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r diweddariad hwn ym mis Tachwedd 2024.

**Argymhelliad 13: Dylai TrC weithio gyda grwpiau teithwyr rheilffyrdd i gyfleu canlyniadau'r adolygiad o wasanaethau rheilffyrdd gyda theithwyr.**

**Ymateb: Derbyn**
Rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau briffio technegol gyda'n grwpiau cynrychiolwyr teithwyr cyn cyhoeddi ein hadolygiad amserlen strategol. Rydym yn adolygu'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a byddwn yn dilyn gyda'r holl grwpiau ar newidiadau y gallem eu gwneud o ganlyniad i'w hadborth.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 14: Rhaid i TrC wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn ystod digwyddiadau mawr. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y camau y mae wedi'u cymryd yn hyn o beth.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Er bod TrC yn cydnabod bod lle i wella yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2023, mae TrC ers hynny wedi rhoi ar waith nifer o welliannau i'w ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer digwyddiadau mawr.

Ers ein hymddangosiad ym mis Tachwedd, mae staff gweithredol wedi gweithio'n ddiflino i lwyddo i ddarparu gwasanaethau gwell yn ystod digwyddiadau mawr, gan fynd gam ymhellach i sicrhau bod y rheini sy'n mynd i ddigwyddiadau yn ddiogel ac yn llwyddo i ddod i mewn ac allan o'r brifddinas yn llwyddiannus yn ystod Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad, dwy gêm Bêl-droed yr Ewro yn Stadiwm Dinas Caerdydd ac yn fwy diweddar, Cyngerdd Bruce Springsteen yn Stadiwm y Principality.

Gwyddom fod ciwiau yn anochel, yn enwedig gan fod Stadiwm y Principality lai na 200m o Orsaf Caerdydd Canolog; mae cefnogwyr a mynychwyr digwyddiadau yn gadael y stadiwm ac yn gwneud eu ffordd yn uniongyrchol i'r Orsaf. Fodd bynnag, gallwch fod yn dawel eich meddwl bod ein cydweithwyr uwch a rheng flaen yn cymryd hyn o ddifri a bod cryn dipyn o gynllunio, weithiau dros flwyddyn o drefnu, er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y digwyddiadau hyn yn llwyddiannus.

Rwy'n ymwybodol bod y staff gweithredol sy'n gweithio mor galed i gyflawni'r trefniadau hyn yn aml yn wynebu cryn feirniadaeth er gwaethaf cyflawni gweithrediadau llwyddiannus i raddau helaeth, yn ogystal â dioddef camdriniaeth gan y cyhoedd ar y diwrnod. Mae'n bwysig cydnabod yr effaith y mae hyn yn ei chael ar les staff, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod yr aelodau staff hyn yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, hyd yn oed lle'r oedd angen gwelliannau o ganlyniad i ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth (megis problemau mecanyddol a brofwyd yn cyplysu trenau gyda'i gilydd, fel y digwyddodd ar un achlysur).

Mae TrC wedi ymrwymo i dryloywder ynghylch y broses hon a bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad pellach ar y mater hwn ym mis Tachwedd 2024.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru a TrC barhau i adolygu'r cynllun Ad-daliad am Oedi er mwyn sicrhau ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng tegwch i deithwyr a realiti gweithredu rhwydwaith trafnidiaeth rheilffyrdd.**

**Ymateb: Derbyn**
Bydd TrC yn parhau i adolygu'r cynllun 'Ad-daliad am Oedi 15' presennol, gan gynnwys monitro costau cysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi bod y newid o 'Ad-daliad am Oedi 30' i 'Ad-daliad am Oedi 15' yn ymrwymiad cytundeb grant.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y prosiectau gwella seilwaith sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU fel rhan o'r "biblinell" o brosiectau i'w cyflwyno pe bai cyllid ar gael.**

**Ymateb**: Llywodraeth Cymru i ddarparu'r manylion hyn.

**Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru a TrC nodi eu safbwynt ar y cynigion ym Mesur drafft Llywodraeth y DU ar ddiwygio rheilffyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

**Ymateb: Derbyn**
Mae TrC a Llywodraeth Cymru wedi llunio eu hymatebion ffurfiol i Bwyllgor Dethol Trafnidiaeth y DU. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi fel rhan o gyhoeddiadau Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth Seneddau'r DU a gellir eu gweld yma: Scrutiny of the draft Rail Reform Bill - Committees - UK Parliament.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth hefyd yn bresennol yn y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth ar 21ain Mai 2024.

**Argymhelliad 18: Dylai TrC esbonio pa gamau y mae'n eu cymryd i wireddu'r arbedion o brosiect Metro De Cymru a sut y nodwyd yr arbedion hyn.**

**Ymateb: Derbyn**
Mae TrC wedi adolygu'r broses o gyflwyno gwaith fesul cam, cwmpas gofynnol y gwaith, y strategaeth gaffael, a'r dull rheoli peirianneg a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cwblhau Rhaglen Trawsnewid CVL, er mwyn sicrhau bod yr isadeiledd hyfyw lleiaf yn cael ei gwblhau er mwyn dechrau rhoi ar waith gerbydau trên newydd a gwneud y gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau rheilffyrdd. Yn naturiol, mae'r adolygiad o'r gofynion seilwaith, yr amser y mae'r gwaith yn cael ei gyflawni a'r rhyngweithio â'n cerbydau trên newydd yn gymhleth ac mae angen parhau i adolygu a herio er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno'r rhaglen. Fel rhan o'r adolygiad parhaus hwn ar draws sawl disgyblaeth o fewn TrC a'i gadwyn gyflenwi, byddwn yn nodi unrhyw arbedion y gellir eu cyflawni sy'n cynorthwyo â chyflawni'r rhaglen yn gyffredinol a lliniaru'r pwysau ar gostau.

**Argymhelliad 19: Dylai TrC ddarparu diweddariad o fewn y chwe mis nesaf ar ddatblygiad y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer teithio llesol.**

**Ymateb: Derbyn**
Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflenwi Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru ar 14eg Mawrth 2024 a gellir ei ddarllen yma: Cynllun cyflawni teithio llesol 2024 i 2027 | LLYW.CYMRU

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 20: Dylai TrC ddarparu diweddariad o fewn chwe mis ar y cynnydd mewn perthynas â'i waith gyda Chydbwyllgorau Corfforaethol (Corporate Joint Committees - CJC) a'r Gronfa Teithio Llesol (ACT).**

**Ymateb: Derbyn**
Bydd TrC yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad ym mis Tachwedd 2024.

Mae TrC yn gweithio'n agos gyda'r CJC i ddatblygu ei gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r arweinwyr teithio llesol rhanbarthol yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i Reolwyr y Rhaglen Datblygu Strategol ranbarthol (Strategic Development Programme Managers - SDPM) i gefnogi'r ymgysylltiad hwnnw a'u gweithgareddau ehangach. Yn ogystal, mae'r arweinwyr teithio llesol rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr awdurdodau lleol i'w cefnogi i ddatblygu a darparu eu rhaglenni teithio llesol, yn enwedig y rhai a ariennir gan Raglen y Gronfa Teithio Llesol.

Bydd y rhaglen gymorth o werth cyfartal i'r CJC o ran darparu cyngor ac arweiniad arfer da, tra hefyd yn cryfhau'r ymgysylltu, monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â phrosiectau teithio llesol o fewn yr RTP (Cynllun Rhaglen Rhanbarthol – RTP). Ar ben hynny, mae'r Pennaeth Teithio Llesol a Chreu Lleoedd, ynghyd ag uwch swyddogion yn y tîm teithio llesol, yn trafod gyda'r SDPM a chydweithwyr Llywodraeth Cymru ynghylch y berthynas yn y dyfodol rhwng y rhaglen ATF, y CJC ac RTP o ran modelau darparu cyllid yn y dyfodol.

**Argymhelliad 21: Dylai TrC nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti ac arbenigedd i chwarae rhan flaenllaw yn y newid i'r model masnachfreinio bysiau.**

**Ymateb: Derbyn**
Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae TrC wedi recriwtio i sawl maes allweddol i helpu i gefnogi'r newid i fasnachfreinio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithwyr sydd wedi sefydlu gyrfaoedd ym maes gweithredwyr bysiau ac sydd â gwybodaeth uniongyrchol am y farchnad hon
- Gweithwyr sydd wedi gweithio mewn awdurdodau lleol fel arbenigwyr trafnidiaeth ac sydd â dealltwriaeth dda o gynllunio a llywodraethu awdurdodau lleol, ynghyd ag arbenigedd am y maes gweithredu bysiau
- Gweithwyr sydd â sylfaen o sgiliau ehangach o ran trafnidiaeth a chynllunio trafnidiaeth, megis systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS), cynllunio trafnidiaeth, rheoli rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â rheoli newid.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4ydd,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4ydd
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Yn ogystal, mae TrC eisoes yn cyflogi pobl sydd â'r sgiliau ehangach sydd eu hangen i gefnogi'r newid i fasnachfreinio, megis caffael, ymgysylltu â'r farchnad, rheoli contractau, rheoli perfformiad, rheoli refeniw, cyfathrebu, marchnata, brandio, dadansoddi data, rheoli ariannol, modelu ariannol, tocynnau, diogelu refeniw a hyfforddiant (ac ati).
Byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn ac adeiladu a datblygu'r tîm yn ôl yr angen – gan gynnwys trwy her allanol gan arbenigwyr y diwydiant.

Hyderaf fod y manylion a ddarperir yn yr ymateb hwn yn ddefnyddiol ac yn ymrwymo i ysgrifennu ymhellach yn sgil argymhellion 6, 11, 12, 14 ac 20 ym mis Tachwedd 2024. Yn y cyfamser, os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso mawr i chi gysylltu â mi.

Cofion cynnes,

James Price.

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive